# Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

24ain o Fai 2021

Annwyl riant/ofalwr

Wrth i ni gyrraedd diwrnod ffarwelio Blwyddyn 11, hoffwn achub ar y cyfle hwn i longyfarch pob un ohonynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth gwblhau eu hasesiadau ffurfiol. Nid oes amheuaeth bod hwn wedi bod yn gyfnod hynod heriol i ddisgyblion a staff. Hoffwn ganmol pob cydweithiwr a phob myfyriwr sydd wedi cymryd rhan yn y broses hon, a diolch hefyd am eich cefnogaeth amhrisiadwy.

Beth sy'n digwydd nesaf?

- Cysylltwyd â disgyblion sydd ag asesiadau heb eu cwblhau. Maent eisioes yn gwbod am y diwrnod a'r amser pryd y dylent ddychwelyd i'r ysgol i gwblhau'r gwaith hwn.
- Bydd yr athrawon yn marcio ac yn safoni pob asesiad, ynghyd â gwybodaeth arall sydd gennym eisoes. Byddant yn llunio barn ar y radd i ddyfarnu pob disgybl ym mhob un o'i pynciau.
- Bydd graddau dros dro a gwybodaeth am yr broses adolygu graddau yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion ar **25ain o Fehefin**. Darperir manylion pellach maes o law.
- **30ain o Fehefin** - dyddiad cau ar gyfer adolygiadau Cam 1 - gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn y ddogfen isod, 'Gwybodaeth i ganolfannau ar adolygiad a phrosesau apelio Haf 2021'.
- Byddwn yn cyflwyno'r graddau dros dro i CBAC erbyn 2ail o Orffennaf. Mae'r graddau'n dal i fod dros dro ar hyn o bryd, gan y bydd CBAC yn cynnal rhai gwiriadau ychwanegol.
- Graddau Terfynol a diwrnod canlyniadau – **12fed o Awst**. Darperir manylion pellach maes o law.

Mae gwybodaeth ychwanegol Cymwysterau Cymru a CBAC ar gael ar ein gwefan, gan gynnwys y dogfennau a ganlyn:

Gwybodaeth i ganolfannau ar brosesau adolygu ac apelio Haf 2021, 'cymwysterau 2021 - Y cyfan sydd angen i chi ei wybod'.

**Trosglwyddo i'r coleg, a rhaglen gwaith a gollwyd YBG.**

Bydd disgyblion sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch yng Ngholeg Sir Benfro yn cael cyfle i barhau â rhaglen ddysgu ar-lein ar ôl hanner tymor yn y meysydd pwnc hynny y maent wedi'u dewis ar gyfer eu Safon Uwch. Pwrpas y rhaglen yw i sicrhau bod manylebau TGAU wedi'u cwblhau mewn pryd erbyn dechrau'r cwrs Safon Uwch, gan roi'r sylfaen angenrheidiol i bob disgybl sydd ei angen ar gyfer astudio Safon Uwch. Bydd y rhaglen yn cael ei dysgu gan athrawon cyfredol YBG, a bydd sesiynau'n cael eu hymgorffori yn eu hamserlenni ar ôl hanner tymor. Dyrennir dwy awr yr wythnos, un awr yn ystod y diwrnod ysgol ac awr fel sesiwn ar ôl ysgol. Fel y dywedwyd, cynhelir y sesiynau o bell gan ddefnyddio 'Google Classroom' neu blatfform dysgu arall, felly ni fydd yn ofynnol i ddisgyblion ddod i'r ysgol. Mae presenoldeb yn wirfoddol; fodd bynnag, byddwn yn cynghori bod pob myfyriwr yn manteisio ar y cynnig hwn, gan y bydd yn ddefnyddiol iawn i sicrhau bod unrhyw waith a gollir yn ystod y cyfnod cloi yn cael ei gwblhau, gan roi'r sylfaen orau bosibl i bob disgybl wrth iddynt baratoi ar gyfer eu cyrsiau Safon Uwch. Bydd pob disgybl yn cael gwybod am fanylion pellach yn ystod yr wythnos hon.

Mae Coleg Sir Benfro yn llunio rhaglen gynhwysfawr o gyfleoedd trosglwyddo, sydd yn golygu bod myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ymweld â'r coleg a derbyn rhai sesiynau 'blasu' mewn rhai meysydd pwnc. Darperir bysiau i gludo disgyblion yn ôl ac ymlaen i'r coleg ar ddiwrnodau penodol. Bydd y coleg yn cysylltu â myfyrwyr yn uniongyrchol dros yr wythnosau nesaf gyda manylion pellach.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau.

Yr eiddoch yn gywir

Mr P Edwards
Pennaeth

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com